

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

Darparu Rhandiroedd yng Nghymru

Gorffennaf 2010



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8409
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: sustainability.comm@wales.gsi.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

Darparu Rhandiroedd yng Nghymru

Gorffennaf 2010



Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

Penodir y Pwyllgor Cynaliadwyedd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried materion sy'n effeithio ar Newid yn yr Hinsawdd, Ynni, Materion Gwledig ac Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Chynllunio ac i baratoi adroddiadau yn eu cylch

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007 yn un o bwyllgorau craffu'r Cynulliad. Disgrifir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn enwedig yn Rheol Sefydlog 12. Mae'r rhain ar gael yn www.cynulliadcymru.org

Aelodau'r pwyllgor

<i>Aelod pwyllgor</i>	<i>Plaid</i>	<i>Etholaeth neu Ranbarth</i>
Kirsty Williams	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Brycheiniog a Sir Faesyfed
Lorraine Barrett	Llafur	De Caerdydd a Phenarth
Joyce Watson	Llafur	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Irene James	Llafur	Islwyn
Leanne Wood	Plaid Cymru	Canol De Cymru
Angela Burns	Plaid Geidwadol Cymru	Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Karen Sinclair	Llafur	De Clwyd
Rhodri Glyn Thomas	Plaid Cymru	Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Brynle Williams	Plaid Geidwadol Cymru	Gogledd Cymru

Roedd yr Aelod(au) canlynol hefyd yn aelod(au) o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:

Mike German	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Dwyrain De Cymru
-------------	--------------------------------	------------------

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor.....	5
1. Cyflwyniad.....	8
Pwysigrwydd Rhandiroedd.....	8
Y Sefyllfa yng Nghymru.....	9
Rheoli a hyrwyddo.....	10
Darparu safleoedd newydd.....	11
2. Materion allweddol.....	11
Cael gwybod faint o randiroedd sydd ar gael a faint o alw sydd amdnaynt.....	12
Rhestrï aros / Darparu Rhandiroedd.....	13
Darparu Tir ar gyfer Rhandiroedd.....	15
Deddfwriaeth.....	15
Defnyddio Tir Preifat.....	17
Maint y lleiniau.....	18
Cyfyngiadau cynllunio.....	19
Gwybodaeth a Chymorth.....	22
3. Casgliadau ac Argymhellion.....	25
Manteision Ehangach.....	29
Atodiad A – Deddfwriaeth sy’n ymwneud â Rhandiroedd.....	32
Atodiad B – Cynllunio a Rhandiroedd.....	37
Tystion.....	40
Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	41

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion:

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n mapio'r rhandiroedd sydd ar gael o'u cymharu â'r galw sydd am randiroedd er mwyn rhoi polisiau ar waith yn y maes hwn a'u targedu'n effeithiol. **(Tudalen 25)**

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell sefydlu safon ar gyfer rhestri aros am randiroedd drwy'r Awdurdodau Lleol i gyd, er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a gofnodir yn y maes hwn yn gyson. **(Tudalen 25)**

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad trwyadl o'r ddeddfwriaeth bresennol, er mwyn sefydlu beth sy'n berthnasol a beth y mae angen ei ddiweddarau. **(Tudalen 26)**

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, ar ôl adolygu'r deddfwriaeth, y dylai Llywodraeth Cymru geisio'r cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol i gyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer rhandiroedd, a honno'n cynnwys terfyn amser i Awdurdodau Lleol ystyried ceisiadau ysgrifenedig am safleoedd newydd. **(Tudalen 26)**

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, yn y cyfamser, ar ôl iddi ymgynghori â rhanddeiliaid, gyhoeddi canllawiau arferion gorau sy'n diffinio beth sy'n amserlen resymol i ystyried cais perthnasol a dynodi tir o dan Adran 23 o'r Ddeddf honno. **(Tudalen 26)**

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog archwilio'r potensial i gynyddu'r cyflenwad o randiroedd drwy ddefnyddio tir sy'n eiddo i gyrrff cyhoeddus ac mae'n annog cyrrff cyhoeddus i edrych yn ffafriol ar geisiadau i sefydlu rhandiroedd ar eu tir. **(Tudalen 27)**

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid, gan adeiladu ar sail profiadau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, er mwyn datblygu canllawiau ar gyfer creu rhandiroedd preifat. Dylai'r canllawiau hyn gynnwys awgrym ynglŷn â chyfnod deiliadaeth a chyngor ynglŷn â sefydlu cymdeithasau rhandiroedd. **(Tudalen 27)**

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddiweddarau ei chanllawiau gan awgrymu y dylid lleihau maint safonol lleiniau rhandiroedd o dan y rhan fwyaf o amgylchiadau. **(Tudalen 27)**

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell cyhoeddi canllawiau i bob Awdurdod Lleol yn disgrifio'r dewisiadau posibl ar gyfer darparu rhandiroedd. **(Tudalen 27)**

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Awdurdodau Cynllunio Lleol i ystyried sut y gellir defnyddio'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn effeithiol i ddarparu rhagor o rhandiroedd. **(Tudalen 28)**

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi a dosbarthu cylchlythyr cynllunio i Awdurdodau Cynllunio Lleol yn esbonio'r arferion gorau o ran pa bryd y mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer rhandiroedd, a chodi strwythurau arnynt a chan gynnwys, os yw hynny'n berthnasol, y drefn ar gyfer rhoi caniatâd cyffredinol ar gyfer rhandiroedd. **(Tudalen 28)**

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid dosbarthu'r pecyn gwybodaeth a baratowyd gan Gerddi Fferm a Dinas drwy Gymru er mwyn cynorthwyo pobl i sefydlu a datblygu rhandiroedd. **(Tudalen 28)**

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu cyfres o ganllawiau a phecynnau i grwpiau cymunedol ac i unigolion sy'n ymwneud â dechrau a chynnal rhandir a thir tyfu cymunedol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth ynglŷn â pha ganiatâd cynllunio y mae ei angen **(Tudalen 28)**

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymell cronfa i sefydlu tir tyfu cymunedol a honno'n debyg i'r gronfa a sefydlwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. **(Tudalen 29)**

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n frwd i hybu manteision rhandiroedd a chymunedau'n tyfu bwyd fel rhan o'r agenda iechyd a lles ehangach. **(Tudalen 31)**

Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddweud sut y bydd yn ystyried rôl rhandiroedd wrth fynd i'r afael ag unrhyw faterion a all godi yn sgil disbyddu'r cyflenwad olew. **(Tudalen 31)**

1. Cyflwyniad

1. Cytunodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd i ymchwilio i ddarparu rhandiroedd yng Nghymru ym mis Ionawr 2010.
2. Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl canlynol i'r ymchwiliad:

Archwilio'r ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru gynorthwyo a darparu cyfleoedd i feithrin y diddordeb cynyddol mewn rhandiroedd a garddio cymunedol ac archwilio'r ffyrdd y gallai'r gweithgareddau hyn gynnig manteisio ehangach.
3. Cytunwyd y byddai'r ymchwiliad yn ystyried y pwyntiau canlynol yn benodol:
 - y galw am rhandiroedd yng Nghymru a'r safleoedd sydd ar gael (yn rhai cyhoeddus a phreifat);
 - y rhwystrau/cyfyngiadau (i ddefnyddwyr a darparwyr);
 - dulliau arloesol o ddarparu tir ar gyfer rhandiroedd;
 - tystiolaeth o'r manteision ehangach y gall deiliad rhandir eu cael o arddio rhandir a'r cyfleoedd sydd ar gael i ddeiliad rhandir (er enghraifft manteision iechyd, yr amgylchedd, y gymuned, cludo cynnyrch i'r farchnad);
 - yr angen i Lywodraeth Cymru ymyrryd ac awgrymiadau o ran ym mha feysydd y dylai ymyrryd.

Pwysigrwydd Rhandiroedd

4. Cytunodd y Pwyllgor i gynnal yr ymchwiliad hwn, oherwydd ein bod yn sylweddoli y dylai rhandiroedd fod yn rhan bwysig o feithrin cymdeithas gynaliadwy. Roeddem yn awyddus i gael gwybod pa ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer rhandiroedd ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n sylweddoli potensial rhandiroedd o ran gwireddu llawer o'i blaenoriaethau allweddol. Ar ei gwefan, bydd y Fenter Adfywio Rhandiroedd yn sôn fel hyn am rhandiroedd:

. ... a sustainable source of healthy food as well as exercise and education for local communities ... an important biodiversity habitat for native flora and fauna. Allotments provide green lungs in built up areas and access to publicly owned land

5. Soniodd Ben Raskin o Gymdeithas y Pridd wrth y Pwyllgor am sut mae rhandiroedd yn gyfrwng pwysig i'w cynorthwyo:

“... to provide a progression of opportunity and learning for people about the production of food, ranging from people who might know nothing about it and who have no access to land to a commercial grower or farmer.”

Ac wrth sôn am bobl yn cysylltu â Chymdeithas y Pridd, dywed fel hyn:

“... [they] really want to grow and get involved in food production. That might have been sparked by having an allotment or, alternatively, if they cannot get hold of an allotment, they might be looking for other ways to get involved in food production.”

6. Cyhoeddwyd adroddiad yn ddiweddar gan y Siopau Gwyddoniaeth ac roedd hwnnw'n nodi bod nifer o enghreifftiau o gynlluniau bwyd sy'n ceisio mynd i'r afael â mynediad at fwyd/tlodi bwyd, gwaith gyda lleiafrifoedd ethnig, gwaith gyda phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio a chyda phobl sy'n gwella ar ôl cyfnod o salwch meddwl neu broblemau camddefnyddio sylweddau. Nododd yr adroddiad hefyd fod mentrau bwyd cymunedol yn wynebu nifer o anawsterau: anawsterau economaidd, polisi, ariannu a chymorth, diffyg gwybodaeth a diffyg tir.¹

Y Sefyllfa yng Nghymru

7. O dan *Ddeddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908*² rhoddwyd dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu rhandiroedd yn ôl y galw; roedd yn cynnwys darpariaeth i awdurdodau lleol brynu tir drwy orfodaeth er mwyn darparu rhandiroedd ac yr oedd hefyd yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer y system rhandiroedd fodern.³

¹ Science Shops Wales [Developing The Links: An Assessment of the Potential for Community Food Initiatives to Contribute to the Development of Sustainable Food Systems in South East Wales](#). Tachwedd 2009 [cyrchwyd 22 Ionawr 2010]

² OPSI [Small Holding and Allotments Act 1908 \(Chapter 36\) \[Revised\]](#) [cyrchwyd 21 Ionawr 2010]

³ Ffederasiwn Ffermydd a Gerddi Dinas [Allotments: A Plottolders' Guide, Department of Local Government and Communities, Revised 2007](#) [cyrchwyd 21 Ionawr 2010]

Rheoli a hyrwyddo

8. Mae'r trefniadau rheoli ar gyfer rhandiroedd sydd o dan berchnogaeth awdurdodau lleol yn amrywio. Bydd rhai awdurdodau lleol yn rheoli eu safleoedd eu hunain, ond bydd eraill yn lesio tir i fudiadau yn y gymuned, i gynghorau cymuned neu i gymdeithasau rhandiroedd sy'n rheoli'r safleoedd ar ran yr awdurdodau lleol. Mewn llawer o ardaloedd hefyd, ceir rhandiroedd sy'n eiddo preifat heb fod yr awdurdod lleol yn ymwneud â hwy o gwbl, yn ogystal â rhandiroedd a gerddi cymunedol.

9. Mae'r trefniadau'n amrywio hefyd o ran hyrwyddo rhandiroedd ac annog pobl i fanteisio arnynt ac o ran yr adnoddau sydd ar gael i'w cynnal. Er enghraifft:

- mae gan Gyngor Caerdydd strategaeth ragweithiol ar gyfer ei rhandiroedd. Maent yn ceisio defnyddio'r tir sydd ar gael yn y ffordd orau bosibl, gan hybu cyfleoedd i unigolion a chymunedau gymryd rhan. Mae strategaeth Gyngor Caerdydd hefyd yn cydnabod y manteision ehangach sydd ynghlwm wrth rhandiroedd o ran iechyd ac o ran yr amgylchedd, megis mynediad at fannau trefol agored a bioamrywiaeth.⁴
- bydd Gyngor Tor-faen yn rhoi cymorth grant i ddwy gymdeithas rhandiroedd i gynnal 1,000 o leiniau dros 39 o safleoedd. Bydd y cyngor yn gwario oddeutu £50,000 ar hyn ac mae'n gweithio tuag at strategaeth Rhandiroedd i gefnogi'r gwaith hwn ac i gynorthwyo deiliaid y lleiniau i fanteisio i'r eithaf ar eu rhandir.⁵

10. Wrth i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ymchwilio i'r sefyllfa, gwelodd nad yw'r un ymagwedd ragweithiol hon ar waith yn ardal pob awdurdod lleol, er efallai mai'r rheswm dros hyn yw bod awdurdodau lleol yn meddwl bod hyd y rhestr aros ei hun yn dangos faint o ddiddordeb sydd, ac nad oes angen bod yn rhagweithiol.

11. Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae nifer o anawsterau'n wynebu'r awdurdodau lleol o ran darparu safleoedd. Maent yn dweud hefyd bod y cyfraddau 'rhoi'r gorau iddi' yn eithaf uchel weithiau:⁶

⁴ Gyngor Caerdydd *Strategaeth Rhandiroedd* [cyrchwyd 21 Ionawr 2010]

⁵ Datganiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

<http://www.wlga.gov.uk/cymraeg/datganiadau-ir-wasg/allotment-demand-in-wales/>

⁶ Ibid.

“Nod byd llywodraeth leol yw gofalu bod lleiniau garddio'n cael eu rheoli'n dda a'u hystyried yn rhan o'r isadeiledd gwyrdd cyffredinol. Rydym ni am gydweithio â'r awdurdodau lleol i hyrwyddo'r arferion gorau a gofalu y bydd lleiniau o safon ar gael i'r genhedlaeth bresennol a rhai'r dyfodol.

“Rhaid ystyried nifer o faterion allweddol ynglŷn â chynnig lleiniau, megis faint o dir addas sydd ar gael - mae hynny'n broblem fawr i rai awdurdodau ac yn hanfodol ynglŷn â chynnig rhagor o leiniau lle mae'r galw'n sylweddol. Dylai pawb gydnabod hefyd nad yw'n hawdd cynnal a chadw llain a dyw hi ddim yn ddewis 'rhad' bob amser. Mae angen digon o waith dyfal ac amser ac, yn aml, mae tua 50% o denantiaid newydd yn rhoi'r ffidil yn y to cyn pen dwy flynedd. Roedd chwech o bobl ar y rhestr am lain benodol yn ddiweddar ac mae pob un yn ei dro wedi rhoi'r gorau iddo erbyn hyn. Mae'n anodd rheoli'r galw ac ateb y disgwyl mewn sefyllfa gyfnewidiol o'r fath.”

Darparu safleoedd newydd

12. Mae rhai awdurdodau lleol wedi bod yn darparu tir newydd ar gyfer lleiniau rhandir. Ar hyn o bryd, gall trigolion yng Ngheredigion, er enghraifft, ddisgwyl aros 5 mlynedd am lain newydd. I ddiwallu'r galw am safleoedd, cyhoeddodd Cyngor Ceredigion yn ddiweddar fod tir newydd ar gael yn Aberystwyth.⁷

13. Mae dulliau eraill o sicrhau tir newydd ar gyfer rhandiroedd wrthi'n cael eu datblygu hefyd, gyda pherchnogion tir preifat yn ymwneud â'r broses. Yn Leeswood, yn sir y Fflint, er enghraifft, mae ffermwr lleol yn lesio tir amaethyddol segur i'r gymuned leol ei ddefnyddio'n rhandiroedd. Cafodd y prosiect nawdd gan Gadwyn Clwyd ar gyfer y cyfleusterau cysylltiedig a chafwyd cymorth gan y cyngor cymuned a'r awdurdod lleol i ddatblygu'r safle.⁸

2. Materion allweddol

14. Cododd nifer o faterion allweddol yng nghyswllt darparu rhandiroedd yng Nghymru yn sgil y dystiolaeth:

⁷ BBC Cymru, [Aberystwyth allotments to ease five-year waiting list](#), Ionawr 2010 [cyrchwyd 20 Ionawr 2010]

⁸ BBC Cymru, [Villagers celebrate campaign for allotments](#) Ionawr 2010 [cyrchwyd 19 Ionawr 2010]

- cael gwybod faint o randiroedd sydd ar gael a faint o alw sydd amdanynt;
- darparu tir ar gyfer rhandiroedd;
- cyfyngiadau cynllunio;
- gwybodaeth a Chymorth.

Cael gwybod faint o randiroedd sydd ar gael a faint o alw sydd amdanynt

15. Er bod y dystiolaeth yn awgrymu bod y galw am randiroedd a thir garddio'n cynyddu, fe'i gwnaethpwyd yn glir i'r Pwyllgor nad oedd darlun pendant ar gael o'r rhandiroedd sydd ar gael yng Nghymru nac o'r galw sydd amdanynt. I bob golwg, nid oedd gan yr un corff unigol wybodaeth am y galw am randiroedd ac roedd gwahanol awdurdodau'n casglu gwahanol fathau o wybodaeth i benderfynu faint o alw oedd.

16. Yn ôl Strategaeth Bwyd y Deyrnas Unedig *Food 2030* a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2010:

“The popularity of ‘grow-your-own’ has risen significantly over recent years. An estimated 33% of people already grow or intend to grow their own vegetables.”

17. Clywodd y Pwyllgor lawer iawn o dystiolaeth i gefnogi'r datganiad hwn am gynnydd yn y galw am randiroedd dros y blynyddoedd diwethaf a bod garddio cymunedol a chynlluniau bwyd cymunedol hefyd ar gynnydd. Yn wir, dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Garddwyr Hamdden a Rhandiroedd wrth y Pwyllgor fod ganddi 110,000 o aelodau a bod y nifer wedi cynyddu 40,000 yn y 5 neu'r 6 blynedd diwethaf. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, roeddent hefyd yn amcangyfrif fod dros 150,000 ar restr i aros yn y Deyrnas Unedig.

18. Clywodd y Pwyllgor sut yr oedd y diddordeb mewn rhandiroedd yn rhywbeth a fyddai'n cynyddu, ym marn llawer o'r tystion, a'i fod yn cael ei annog a'i gefnogi gan nifer o sefydliadau. Er hynny, pwysleisiodd rhai tystion y gall fod yn anodd rhagweld maint y cynnydd.

19. Pan ofynnwyd iddo am y galw am randiroedd yn y dyfodol, dywedodd Ben Raskin o Gymdeithas y Pridd:

“I would say that it will increase, almost certainly. I think that, increasingly, people want to know more about the food that

they eat, where it has come from, and how it is produced, and, if possible, they want to do it themselves.”

20. Roedd y Pwyllgor yn poeni, er gwaetha'r cynnydd yn y diddordeb mewn tyfu bwyd a'r galw am y lleiniau hyn, mai ychydig o wybodaeth a oedd ar gael am union faint y galw, ac nad oes twf cyfatebol wedi bod yn nifer y safleoedd sydd ar gael.

21. Cred y pwyllgor fod y galw am randiroedd a lle i bobl dyfu eu bwyd eu hunain yn rhywbeth y mae angen i Lywodraeth Cymru roi sylw iddi'n ddi-oed.

Rhestrï aros / Darparu Rhandiroedd

22. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Fenter Adfywio Rhandiroedd wrth y Pwyllgor:

“There is no formal evidence of how many allotment sites (private or council owned) there are in Wales, nor is there formal evidence of demand. No survey of the number of sites has been carried out. ARI and other organisations (eg FCFCG, NSALG and other NGO’s whose work touches upon allotments) do, however, have anecdotal evidence that actual and latent demand for allotments in Wales exists and that it greatly exceeds supply.”

23. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan nifer o Gynghorau a honno'n cynnwys eu rhestrï aros a'r amserau aros yn fras. Roedd yr wybodaeth yn dangos y diffyg cysondeb ymhlith cynghorau o ran y ffordd yr oeddent yn rheoli rhandiroedd. Roedd y Pwyllgor yn poeni bod hyn yn ei gwneud yn anodd cynnig argymhellion clir ynglŷn â sut mae bwrw ymlaen â hyn, a'i bod yn hanfodol ystyried yr wybodaeth hon wrth geisio llunio unrhyw strategaethau yn y maes hwn yn y dyfodol.

24. Yn ogystal â'r anghysonderau wrth gofnodi'r niferoedd sydd ar restrï aros, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd a awgrymai nad yw rhestrï aros o reidrwydd yn adlewyrchu'r galw'n gywir.

25. Awgrymodd Martin Howorth o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:

“We should not get too hung up on waiting lists. Waiting lists do not show the latent demand, which is far bigger than waiting lists. People will look at our website, see that the waiting list is big and they will just go away. We know that, in the community, there is a huge demand that is not met.

Waiting lists do not really give a true reflection of the demand in the community.”

26. Yn ogystal â'r ffaith nad yw rhestri aros yn adlewyrchu'r galw cudd, tynnodd nifer o dystion sylw at faterion eraill, gan gynnwys bod lleiniau'n anaddas i'w defnyddio oherwydd eu lleoliad, neu oherwydd y dirwedd neu oherwydd bod pobl yn cofrestru ar restr fwy nag unwaith.

27. Roedd Allan Rees o Gymdeithas Genedlaethol y Garddwyr Hamdden a Rhandiroedd yn cyd-fynd â'r farn hon:

“... where there are derelict allotments, generally there is no demand. Where there is a demand, there are no allotments, or there are allotments but not a sufficient number. “

28. Dywedodd Lyn Davies o Gyngor Sir Conwy wrth y Pwyllgor nad yw'r rhestri aros yno mewn gwirionedd yn adlewyrchu'r ardaloedd lle mae'r galw:

“... waiting lists do not give a true reflection of demand. The majority of people on our waiting lists are from the areas where we have existing allotments on the coastal belts. In the rural areas, we have very little demand, but I suspect that that is because we do not have any allotments there. If we had more allotments, I am sure that we would have a big demand from the rural areas.”

29. Galwodd Allan Rees o Gymdeithas Genedlaethol y Garddwyr Hamdden a Rhandiroedd ar i bobl ystyried y darlun ehangach :

“You talk about waiting lists. In the Valleys, I know that, in some places, there are short waiting lists, but there are vacant plots. There is land that is not being used. There are derelict allotments in the Garw Valley, for example, at the top end. So, you have to look at the whole picture. Where do you provide allotments? I say that you provide them where there is a demand. You do not provide allotments for the sake of providing allotments.”

Darparu Tir ar gyfer Rhandiroedd

Deddfwriaeth

30. Ceisiodd y Pwyllgor gael ar ddeall beth oedd y sefyllfa gyfreithiol o ran cyfrifoldeb am ddarparu rhandiroedd. Gellir gweld yr wybodaeth fanwl a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn **Atodiad A**.

31. Dywedodd nifer o dystion eu bod yn poeni am y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â rhandiroedd. Er na wnaeth yr un tyst alw am ailwampio'r ddeddfwriaeth o'i chwr, roedd cefnogaeth sylweddol o blaid gwneud y gyfraith yn fwy eglur.

32. Soniodd Craig Mitchell o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am yr anhawster y bydd llawer yn ei gael gyda'r ddeddfwriaeth bresennol:

“One small point, which is also in the guidance written for the WLGA by the Federation of City Farms and Community Gardens, 'A Place to Grow', on page 10, is that the Act lays out that:

'Requests for allotments submitted by at least six local taxpayers or electors must be taken into account in considering whether a demand exists. Having determined that there is a demand, the local authority must be able to demonstrate that it has a strategy in place to meet that demand.'

The guidance goes on to say that the law imposes no deadline for eventual provision and that an interested party may seek a judicial review if they feel that the authority is not working. I do not want to dance around the point, but that leaves some vagueness about what exactly meeting that duty means.”

33. Dywedodd Adrian Walsh o'r Fenter Adfywio Rhandiroedd wrth y Pwyllgor:

“there is a statutory requirement for councils to provide allotments. Having said that, it is not always that easy to do it. Besides which, in this legislation, there is no time limit, so a council or an authority can say, 'Yes, we are doing it,' but, when?”

34. Esboniodd Allan Rees o Gymdeithas Genedlaethol y Garddwyr Hamdden a Rhandiroedd wrth y Pwyllgor eu bod wedi ceisio rhoi'r ddeddfwriaeth ar brawf ond nad oeddent wedi llwyddo i wneud hynny:

“It is not happening because I cannot get a local authority to say that it is not going to provide land. If I can get an authority to say that it is not going to provide land it will be in court; we will not hesitate to pursue that. I have £100,000 sitting in a fund for legal action against a local authority that refuses to provide.”

35. Yn ogystal â'r enghreifftiau a glywyd yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor, derbyniodd y Pwyllgor lawer o dystiolaeth ysgrifenedig hefyd yn sôn am yr anawsterau yr oedd pobl wedi'u hwynebu ledled Cymru wrth geisio cael awdurdodau i ddarparu tir.

36. Byddai'n dda gan y Pwyllgor weld rhagor o ganllawiau'n cael eu rhoi i Awdurdodau Lleol hefyd ynglŷn â pha ddewisiadau sydd ar gael iddynt o dan y ddeddfwriaeth o ran caffael tir, a pha hawliau a sefydlid yn y tymor hir.

37. Dywedodd Adrian Walsh o'r Fenter Adfywio Rhandiroedd wrth y Pwyllgor:

“The other thing about it is the provision of land and so on. I think that councils need to be educated because there is a lot that they do not know and they are afraid of allotments inasmuch as they think, 'If we turn over a piece of land to allotments, we will never get it back', which of course is not true. If it is a statutory site, obviously that is something different. There is a lot of land available that is earmarked for x or y that could be leased in the interim period. Land can be made available if people understand the law.”

38. Soniodd Allan Rees o'r Gymdeithas Genedlaethol wrth y Pwyllgor hefyd am y gwahanol ddewisiadau sydd ar gael i Awdurdodau Lleol o ran y Ddeddfwriaeth:

“ I am not sure, but I think that the legislation is in sections 25 and 39 of the Small Holdings and Allotments Act 1908: one is compulsory purchase and one is compulsory hire. Compulsory hire is for a minimum of 14 years and a maximum of 35 years. What the heck is wrong with a local authority getting a 14-year lease on a piece of land, compulsorily hiring it for 14 years to see how it goes? If it is good, and if it is substantiated at the end of that period that it is worth looking at a compulsory purchase for allotments, why not do it? It does not cost

anything as you will get your money back through rents and other things.”

39. Credwn y dylid annog Awdurdodau Lleol i feddwl mewn ffordd arloesol ynglŷn â sut mae darparu tir ar gyfer rhandiroedd. Credwn y dylid archwilio'r ddarpariaeth ar gyfer llogi tir naill ai drwy drefniant statudol neu drwy les dros dro.

Defnyddio Tir Preifat

40. Mae'r Pwyllgor yn sylweddoli y byddai'n anodd dod o hyd i ddigon o dir a thir addas ar gyfer rhandiroedd ym mhob awdurdod lleol. Clywsom dystiolaeth am amrywiaeth o ddarparwyr rhandiroedd, sy'n cynnwys y rhai mwy traddodiadol megis Awdurdodau Lleol, a Chynghorau Tref, a rhai eraill megis perchnogion tir lleol, ac elusennau megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

41. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â sylw Ben Raskin o Gymdeithas y Pridd:

“...publicly owned and managed allotments would be the ideal. However, if there are not enough of them, some of these other schemes are perhaps a way of managing high demand in the meantime.”

42. Roedd Hannah Pitt o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn annog gwahanol sefydliadau i ddarparu tir i bobl dyfu eu cynnyrch eu hunain:

“We would like to see people who own land, including public bodies that are responsible for land, looking to identify places that could be made available for community growing.”

43. Calonogwyd y Pwyllgor wrth glywed am nifer o enghreifftiau cadarnhaol lle'r oedd hyn wedi digwydd eisoes. Soniodd Martin Howorth o Gyngor Casnewydd, wrth y Pwyllgor am y rhandiroedd a sefydlwyd ganddynt gyda grŵp cymunedol ar dir a ddarparwyd gan elusen. Rhoddodd Dan Morris o'r Ffederasiwn Gerddi Fferm a Dinas enghraifft i'r Pwyllgor o randir cymunedol a sefydlwyd ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Ninefwr.

44. Serch hynny, er mwyn i hyn fod yn ateb hyfyw, cred y Pwyllgor fod angen i Lywodraeth Cymru bennu nifer o ganllawiau clir ynglŷn â sut y gellid cyflawni hyn.

45. Dywedodd Ben Raskin o Gymdeithas y Pridd wrth y Pwyllgor mai diffyg ymddiriedaeth yw un o'r rhwystrau mawr rhag darparu tir preifat:

“... I think that part of the barrier for landowners is having confidence in what is going to happen. ... There are a lot of fears, but they can all be overcome if you give people tools and guidelines at the beginning, if you approach it in the right way, and if each side has confidence in what is happening.”

46. Clywodd y Pwyllgor fod defnyddio tir preifat yn codi cwestiynau ynglŷn â sicrwydd deiliadaeth i berchennog y tir ac i'r tenant.

47. Awgrymodd John Mason o fudiad y Trefi Trawsnewid:

“...if someone is going to take the trouble to set up an allotment, they are going to want security of tenure, for at least two years, I would say. I would not want to spend six months putting a garden together and then be told that you have got three months' notice to quit because it is labour intensive and it is expensive.”

48. Soniodd Allan Rees wrth y Pwyllgor am yr ansicrwydd sy'n wynebu deiliaid Rhandiroedd:

“The land that you are talking about is private land. Private landholders will let the land for whatever rent they can get. The plot holders will only get 12 months' notice to get off the land and do not have any comeback. . The owner does not have to have a reason: it is just a matter of the owner saying 'off'.”

49. Esboniodd Hannah Pitt wrth y Pwyllgor sut yr oedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn mynd o'i chwmpas hi:

“I think that the way that the National Trust has tried to go about it is by building a very good relationship with the community that is going to be using the land. So, you build up the trust and the understanding, and maybe start with a shorter lease arrangement to see how both parties get on, and then extend it in the long term.”

Maint y lleiniau

50. Ochr yn ochr ag archwilio darparwyr amgen ar gyfer rhandiroedd, cred y Pwyllgor y dylid annog awdurdodau lleol i ystyried maint y

lleiniau'n gyffredinol ac ai dyma'r ffordd orau o ddefnyddio'r tir pan fydd rhywun yn ystyried y galw sydd am dir tyfu.

51. Cafodd y Pwyllgor gadarnhad gan Craig Mitchell o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bod eu canllawiau ar hyn o bryd yn dweud mai maint llain gonfensiynol yw 250 m.sg. a elwir hefyd yn 10 polyn neu'n 10 rhoden. Serch hynny, clywodd y Pwyllgor lawer o dystiolaeth gadarnhaol gan y Cynghorau ynglŷn â champau a gymerwyd i leihau maint y lleiniau. Er enghraifft, dywedodd Lyn Davies o Gyngor Conwy :

“We have just started a new management regime. Previously, we issued people with a standard size allotment. We are now in the process of subdividing some of the plots, as they become available, so we can move the waiting list along more quickly.”

52. Cred y Pwyllgor fod y cam hwn yn un syml a rhagweithiol y gallai Cynghorau ledled Cymru ei gymryd a fyddai'n gymorth i ddiwallu'r angen am randiroedd.

Cyfyngiadau cynllunio

53. Clywodd y Pwyllgor amrywiaeth o dystiolaeth ynglŷn â chynllunio a bod angen egluro pa bryd yr oedd angen caniatâd cynllunio er mwyn sefydlu rhandir a pha ganiatâd cynllunio yr oedd ei angen ar randiroedd. Gellir gweld y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Chynllunio a'r fframwaith Polisi ar gyfer rhandiroedd yn **Atodiad B**.

54. Dywedodd Dan Morris o'r Ffederasiwn Gerddi Fferm a Dinas wrth y Pwyllgor am yr anawsterau sydd ynghlwm wrth sefydlu safle ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol:

“We had difficulty in terms of planning. It was the trust that dealt with all the planning aspects. It asked whether planning permission was required. That process took nine months. The planning department was trying to say that the land was part of the conservation area, although it was not. There were all sorts of issues.”

55. Clywodd y Pwyllgor am sawl enghraifft o sut y defnyddiwyd adran 106 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i greu lle ar gyfer rhandiroedd. Dywedodd David Morris o Gyngor Sir Casnewydd wrth y Pwyllgor:

“Using section 106 agreements, specifically for allotments, is now a priority of ours, because it is the only economically viable way for us to tackle the problem of sorting out the

waiting lists and trying to cater for the burgeoning demand, because there is simply no Government resource; it has to come from outside, and section 106 is the best vehicle for that.”

56. Daeth Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 i rym ar 6 Ebrill 2010. Tâl newydd yw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol y caiff awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru a Lloegr ei godi ar y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yn eu hardal, ond nid oes yn rhaid iddynt wneud hynny. Bydd yr arian a godir drwy'r ardoll yn darparu seilwaith lleol ac isranbarthol newydd sy'n gymorth i ddatblygu ardal yn unol â chynlluniau datblygu awdurdodau cynllunio lleol. Er y caiff awdurdodau ddewis cyflwyno'r Ardoll Seilwaith Cymunedol neu beidio, mae'r Rheoliadau'n crebachu'r ffordd y mae rhwymedigaethau cynlluniau'n gweithio o dan Adran 106 o'r Ddeddf. Mewn gair, dyma'r newidiadau:-

- dim ond o dan yr amodau a ganlyn y caiff rhwymedigaeth cynllunio fod yn rheswm dros roi caniatâd cynllunio:
 - a os oes angen hynny er mwyn gwneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio;
 - b os yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad
 - c os oes cysylltiad gweddol a rhesymol rhyngddo a'r datblygiad o ran ei faint a'i fath.

Mae'r profion hyn yn eu hanfod yr un fath â'r rheini a geir ym Mholisi Cynllunio Cymru.

- sicrhau nad yw'r ffordd y defnyddir yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a rhwymedigaethau cynllunio'n gorgyffwrdd;
- cyfyngu ar gyfraniadau cronus yn sgil rhwymedigaethau cynllunio at seilwaith y gellid defnyddio'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i dalu amdano.

57. Clywodd y Pwyllgor gan nifer o Awdurdodau Lleol am yr anawsterau yr oeddent yn eu hwynebu ym maes cynllunio a datblygu.

58. Dywedodd Lyn Davies o Gyngor Conwy wrth y Pwyllgor:

“We have recently been through a planning process applying for a new allotment..... It is an open space that we are converting, and we had a lot of objections. The planning process and gaining planning permission for the site took an extremely long time.”

59. Dywedodd David Morris o Gyngor Sir Casnewydd wrth y Pwyllgor:

“As for the planning regime overall, we are struggling with it. We are finding that it is a barrier to progress,.... From Newport’s perspective, streamlining or improving the planning constraints would be enormously helpful..”

60. Galwodd nifer o dystion, gan gynnwys Hannah Pitt am eglurdeb yn y canllawiau. Soniodd hi wrth y Pwyllgor am y dryswch yn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol:

“We have had experience where the advice that we have been given has been that planning permission should not be required to create a new site and the planning authority has come up with a different view. So, it varies really with different planning authorities as to the response you get, but certainly we would see merit in some form of planning circular going out to local authorities in Wales to make it absolutely clear where planning permission is required.”

61. Calonogwyd y Pwyllgor gan sylwadau Craig Mitchell o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â hyn a byddai'n annog y Gweinidog i sicrhau y dilynir y trywydd hwn i'r pen:

“one of the concerns and key messages that I am taking from today is the inconsistency in how local authorities approach these issues. I reviewed the guidance on planning policy and allotments law, and there is not a lot in the guidance that we give out on the development control side.”

62. Soniodd Dan Morris o Ffederasiwn y Gerddi Fferm a Dinas wrth y Pwyllgor am nifer o enghreifftiau o randiroedd yn gorfod talu'n ddiangen am geisiadau cyn-gynllunio:

“...in the guidelines, it says that there are no planning fees, but there are planning officers who charge those fees. Some charge £100 per allotment for putting a shed up, and the shed itself costs only £100.”

63. Dywedodd David Morris o Gyngor Sir Casnewydd:

“We seem to have made some headway with our own planners, and are going for a blanket consent for all the units on the site, to try to cover it within the £100, or whatever sum. Clearly, to ask £100 for each allotment is absolutely outrageous and not viable-morally, apart from any other reason.”

64. Yn ogystal â'r dryswch ynghylch a ddylid codi ffioedd cynllunio, codwyd nifer o faterion ynglŷn ag a oedd angen caniatâd o gwbl ar gyfer adeiladau megis cytiau. Dywedodd Allan Rees o Gymdeithas Genedlaethol y Garddwyr Hamdden a Rhandiroedd wrth y Pwyllgor am sut yr oedd wedi defnyddio'r ddarpariaeth yn Neddf Rhandiroedd 1950, ac adran 12, sy'n caniatáu i bobl godi cytiau i gadw ieir a chwingod.

65. Yn ôl Adran 12 o Ddeddf Rhandiroedd 1950, caiff preswilydd gadw ieir neu gwingod, ac eithrio at ddiben masnachu neu gadw busnes, yn rhywle ar y tir, a chodi neu osod a chynnal strwythurau y mae eu hangen yn rhesymol at y diben hwnnw, ni waeth am ddarpariaeth unrhyw les neu denantiaeth sy'n groes i hynny neu unrhyw gyfamod, contract neu ymrwymiad sy'n ymwneud â defnyddio'r tir². Nid yw'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i rywun gadw ieir neu gwingod mewn man a fyddai'n peryglu iechyd neu'n peri niwsans, ac nid yw ychwaith yn effeithio ar weithredu unrhyw ddeddfiad.

Gwybodaeth a Chymorth

66. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i bwysleisio bod angen darparu cymorth digonol er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu gwireddu eu huchelgais i dyfu eu cynnyrch eu hunain. Credwn y bydd hyn yn gyfraniad mawr at sicrhau dyfodol cynaliadwy.

67. Dywedodd Ben Raskin o Gymdeithas y Pridd wrth y Pwyllgor:

“One thing that we are noticing is that people come in and are excited about this, but their lack of knowledge is a real barrier to getting started.”

68. Dyma bwynt y tynnodd sawl tyst sylw ato, gan gynnwys Susan Powell a ysgrifennodd at y Pwyllgor am ei phrofiadau'n ceisio sefydlu rhandir gan awgrymu hyn: .

“Could there be some sort of support mechanism to give newbies advice from experienced gardeners, or some site-

specific guidance on what to tackle first to avoid the worst disappointment and failures? You can read lots of books, and there are sometimes other plottolders around who can advise you on a particular thing, but it would be great to start out with a plan that is realistic and would get the basics sorted - ie situation, soil type, what crops to grow, some basic gardening skills.

“It is also very expensive to set up an allotment from scratch. Could there be an allotment version of freecycle, so that equipment/materials can get passed on? “

69. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i weld mwy o adnoddau'n cael eu darparu i gynorthwyo pobl i ddechrau eu rhandir a'u tir tyfu ac i gynnal y manau hynny.

70. Clywodd y Pwyllgor hefyd nad dim ond deiliaid rhandiroedd unigol a oedd yn meddwl bod diffyg gwybodaeth yn rhwystr, ond Awdurdodau Lleol, Grwpiau yn y Gymuned a Chymdeithasau Rhandiroedd hefyd.

71. Galwodd Ben Raskin o Gymdeithas y Pridd am arweiniad gan y cynghorau i gynorthwyo i wneud y polisi'n fwy eglur:

“What would be very helpful is very clear guidance from the council as to what the policy is, what is available and how to approach it-if you are interested in getting an allotment or being a part of a community group, how you go about it and who you talk to.”

72. Soniodd Hannah Pitt o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wrth y Pwyllgor am eu profiadau hwy'n gweithio gydag Awdurdodau Lleol:

“One of the things that we would suggest is that there is a lack of clarity around some of the issues, both planning and others, so certainly some kind of resource pack or information going into local authorities would be helpful. A really useful tool has been prepared by the Federation of City Farms and Community Gardens and it would be a fantastic resource for local authorities.”

73. Yn ogystal â chael cymorth o ran gwybodaeth, awgrymodd rhai tystion y gallai cynyddu'r cymorth ariannol fymryn bach wneud gwahaniaeth mawr i'r rhandiroedd sydd ar gael.

74. Awgrymodd John Mason o Fudiad y Trefi Trawsnewid:

“I reckon that you can put big dents in the waiting lists for a lot of towns the size of where I come from for less than £10,000. When you consider what that would achieve, I think that it is quite good value.

So, what I envisage-which would be fantastic if it is possible-is a pot of money that people can apply to for grants for certain specific projects that tick the boxes that we have identified here this morning.”

75. Roedd Hanna Pitt o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cefnogi sefydlu cronfa o'r fath:

“Some kind of small grant pot would be fantastic as well...

...When I say 'small', I mean a pot from which small grants can be given out. It does not take a huge amount of money to establish a site, obviously depending on how big it is. It would be something that is administratively easy for people to apply to that can give them the initial few thousand pounds to get things in place. As to how big the pot itself could be, well, that would be as much as you can give.”

76. Cred y Pwyllgor y gellid seilio hyn ar rywbeth tebyg i'r hyn a sefydlwyd eisoes gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, fel y dywedodd Hannah Pitt:

“We established a fund within the National Trust to help to meet our target. The kind of things that has been funding are materials to make raised beds, clearance work to get the site ready for growing, buying tools and equipment, water butts, and that kind of thing. Equipment and materials are the focus really”.

3. Casgliadau ac Argymhellion

Yn ystod yr ymchwiliad hwn, cafodd y Pwyllgor lawer iawn o dystiolaeth gadarnhaol am grwpiau'n dod at ei gilydd i greu llecynnau cymunedol ac am bobl a oedd yn awyddus i fyw mewn ffordd fwy cynaliadwy. Serch hynny, clywsom hefyd gan unigolion sydd wedi bod yn straffaglu i ddod o hyd i dir i dyfu eu cynnyrch eu hunain a chan bobl a oedd wedi bod yn brwydro i gael Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswyddau.

78. Yn y lle cyntaf, hoffem weld sefydlu darlun clir o'r rhandiroedd sydd ar gael ledled Cymru, oherwydd heb hyn, nid yw'n glir a yw'r adnoddau'n cael eu targedu yn yr ardaloedd iawn. Cred y pwyllgor fod y cam cyntaf hwn yn gam hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r problemau sydd ynghlwm wrth ddarparu rhandiroedd.

79. Roedd y Pwyllgor yn poeni hefyd nad yw rhestri aros o reidrwydd yn cynnwys yr un wybodaeth o'r naill Awdurdod Lleol i'r llall, ac nid yw hynny'n gymorth i gael darlun cywir o'r galw. Rydym yn gobeithio drwy'r camau a grybwyllir yn yr adroddiad hwn, y bydd yn haws i bobl gael gafael ar rhandiroedd, ac y gall hynny o bosibl fynd i'r afael â'r materion a godwyd ynghlwm â'r galw cudd.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n mapio'r rhandiroedd sydd ar gael o'u cymharu â'r galw sydd am rhandiroedd er mwyn rhoi polisiau ar waith yn y maes hwn a'u targedu'n effeithiol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell sefydlu safon ar gyfer rhestri aros am rhandiroedd drwy'r Awdurdodau Lleol i gyd, er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a gofnodir yn y maes hwn yn gyson.

80. Wrth gynnal yr ymchwiliad hwn, ceisiodd y Pwyllgor hefyd gael ar ddeall beth yw'r sefyllfa gyfreithiol o ran rhandiroedd, yn anad dim gan fod y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r maes hwn yn ymestyn dros 100 mlynedd - yn ôl i Ddeddf Rhandiroedd 1908. Mae'r wybodaeth a baratowyd ar gyfer y Pwyllgor i'w gweld yn **atodiad A**. Yr hyn a ganfu'r Pwyllgor oedd, er bod y ddeddfwriaeth berthnasol wedi newid cryn dipyn dros y blynyddoedd, bod hyn wedi digwydd fesul cam a'i bod yn anodd i aelodau'r cyhoedd ei dehongli.

81. Mae'r Pwyllgor yn poeni'n arbennig ynghlwm â'r ffaith nad oes terfyn amser y mae'n rhaid awdurdodau lleol gydymffurfio ag ef o dan

Ddeddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908 wrth iddynt ystyried ceisiadau ysgrifenedig am ddarparu rhandir o dan Adran 23(1). At hynny, yr oeddem yn poeni nad oes canllawiau ynglŷn â beth fyddai'n amserlen resymol. Er ein bod yn sylweddol nad oes gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyhoeddi canllawiau statudol o dan Ddeddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908, credwn fod angen canllawiau ynglŷn â'r arferion gorau

82. Teimlwn, er nad yw Awdurdodau Lleol o reidrwydd yn torri'r gyfraith wrth iddynt fethu ag ymateb yn brydlon i geisiadau am dir ar gyfer rhandiroedd, yn sicr, nid ydynt yn gweithredu'n unol ag ysbryd y gyfraith ac mae angen unioni hyn.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad trwyadl o'r ddeddfwriaeth bresennol, er mwyn sefydlu beth sy'n berthnasol a beth y mae angen ei ddiweddarau.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell, ar ôl adolygu'r ddeddfwriaeth, y dylai Llywodraeth Cymru geisio'r cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol i gyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer rhandiroedd, a honno'n cynnwys terfyn amser i Awdurdodau Lleol ystyried ceisiadau ysgrifenedig am safleoedd newydd.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, yn y cyfamser, ar ôl iddi ymgynghori â rhanddeiliaid, gyhoeddi canllawiau arferion gorau sy'n diffinio beth sy'n amserlen resymol i ystyried cais perthnasol a dynodi tir o dan Adran 23 o'r Ddeddf honno.

83. Rydym ni'r Pwyllgor yn cytuno â'r awgrym a gyflwynwyd gan lawer o'n tystion y byddai'n anodd diwallu'r galw presennol am rhandiroedd drwy ddefnyddio tir Awdurdodau Lleol yn unig ac y dylid archwilio posibiliadau eraill.

84. Roeddem yn teimlo y dylid annog Awdurdodau Lleol i fanteisio i'r eithaf ar y darpariaethau sydd ar gael iddynt. Dylai Awdurdodau Lleol ystyried maint y lleiniau a gynigir ganddynt, a dylent ystyried pa dir y byddant yn ei gynnig ar gyfer rhandiroedd. Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i awdurdodau logi tir drwy orfodaeth os nad yw'n cael ei ddefnyddio a sefydlu rhandiroedd ar lesiau dros dro.

85. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn hoffi gweld tir sydd mewn perchnogaeth gyhoeddus, megis tir o gwmpas ysbytai neu ar dir y

Comisiwn Coedwigaeth yn cael ei ddefnyddio'n well i ddarparu rhandiroedd. Hoffem weld tir cyhoeddus sy'n cael ei danddefnyddio'n cael ei gweddnewid yn dir garddio i'r gymuned. Gallai hynny fod o gymorth i gyflawni nifer o gymhellion allweddol y Llywodraeth

86. Roeddem yn awyddus i beidio â bod yn rhy bedantig ynglŷn â'r hyn a ddylai ddigwydd ar dir preifat, drwy sôn, er enghraifft, am renti posibl neu hyd y denantiaeth. Fodd bynnag, yr ydym yn sylweddoli bod angen rhoi rhywfaint o sicrwydd deiliadaeth a gwarchodaeth i'r rheini sy'n sefydlu rhandiroedd ar dir preifat, gan fod hyn yn aml yn golygu buddsoddiad ariannol ac emosiynol, a bod angen sicrwydd hefyd i ar berchnogion y tir o ran eu hincwm a'u tir.

87. Cytunwn â'r sylwadau gan rai tystion mai'r ffordd fwyaf effeithiol gan amlaf o weinyddu rhandiroedd preifat yw drwy gyfrwng cymdeithas rhandiroedd, gan y byddai hyn yn symleiddio'r broses o ran casglu rhent ac yn sefydlu pwynt cyswllt clir.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog archwilio'r potensial i gynyddu'r cyflenwad o rhandiroedd drwy ddefnyddio tir sy'n eiddo i gyrff cyhoeddus ac mae'n annog cyrff cyhoeddus i edrych yn ffafriol ar geisiadau i sefydlu rhandiroedd ar eu tir.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid, gan adeiladu ar sail profiadau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, er mwyn datblygu canllawiau ar gyfer creu rhandiroedd preifat. Dylai'r canllawiau hyn gynnwys awgrym ynglŷn â chyfnod deiliadaeth a chynghor ynglŷn â sefydlu cymdeithasau rhandiroedd.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddiweddarau ei chanllawiau gan awgrymu y dylid lleihau maint safonol lleiniau rhandiroedd o dan y rhan fwyaf o amgylchiadau.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell cyhoeddi canllawiau i bob Awdurdod Lleol yn disgrifio'r dewisiadau posibl ar gyfer darparu rhandiroedd.

88. Roedd y Pwyllgor yn poeni am y diffyg eglurdeb o ran caniatâd cynllunio a rhandiroedd. Yn benodol, roeddem yn siomedig nad yw fersiwn ddiwygiedig Polisi Cynllunio Cymru a gyhoeddwyd ym mis

Mehefin 2010 yn cyfeirio at yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a allai fod o fudd wrth ddarparu rhagor o dir ar gyfer rhandiroedd, ac ystyried yr enghreifftiau cadarnhaol o ddefnyddio adran 106.

89. Roeddem yn poeni hefyd am y diffyg cyngor cyson a'r diffyg ymagwedd gyson yng nghyswllt caniatâd cynllunio a ffioedd ceisiadau cynllunio. Ni fydd mwyafrif helaeth y rheini a fydd yn ymgeisio am ganiatâd cynllunio ar gyfer rhandiroedd yn gwybod am y gwahanol reolau a rheoliadau, ac mae angen i Lywodraeth Cymru afael yn yr awenau i egluro hyn.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Awdurdodau Cynllunio Lleol i ystyried sut y gellir defnyddio'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn effeithiol i ddarparu rhagor o rhandiroedd.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi a dosbarthu cylchlythyr cynllunio i Awdurdodau Cynllunio Lleol yn esbonio'r arferion gorau o ran pa bryd y mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer rhandiroedd, a chodi strwythurau arnynt a chan gynnwys, os yw hynny'n berthnasol, y drefn ar gyfer rhoi caniatâd cyffredinol ar gyfer rhandiroedd.

90. Byddai'n dda gan y Pwyllgor weld rhagor o gymorth i'r rheini sy'n darparu rhandiroedd ac i'r rheini sy'n cadw rhandir. Gwelodd y Pwyllgor fod manteision enfawr yn deillio o dyfu'ch bwyd eich hun, a'r rheini'n amrywio o addysgu pobl am fyw'n iach i ddod â chymunedau at ei gilydd ac y byddai'n bechod colli'r manteision hyn oherwydd diffyg cymorth.

91. Byddem yn gobeithio y byddai dwyn yr adnoddau sydd ar gael eisoes at ei gilydd yn gam cyntaf at sicrhau bod yr wybodaeth ar gael.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid dosbarthu'r pecyn gwybodaeth a baratowyd gan Gerddi Fferm a Dinas drwy Gymru er mwyn cynorthwyo pobl i sefydlu a datblygu rhandiroedd.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu cyfres o ganllawiau a phecynnau i grwpiau cymunedol ac i unigolion sy'n ymwneud â dechrau a chynnal rhandir a thir tyfu cymunedol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth ynglŷn â pha ganiatâd cynllunio y mae ei angen.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell cronfa i sefydlu tir tyfu cymunedol a honno'n debyg i'r gronfa a sefydlwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Manteision Ehangach

92. Cred y Pwyllgor y bydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn gymorth sylweddol i wella datblygu a chynnal rhandiroedd a thiroedd tyfu cymunedol. Credwn fod hyn yn bwysig, nid yn unig o ran hyrwyddo'r agenda Cynaliadwyedd, ond hefyd yn fwy cyffredinol drwy'r gymdeithas.

93. Clywodd y Pwyllgor gan Ben Raskin o Gymdeithas y Pridd y gall rhandiroedd cymunedol yn benodol ddod â grwpiau o bobl at ei gilydd:

“There is that whole element of community and talking to people and learning from each other which inspires you to keep going. That certainly helps.”

94. Dywedodd David Morris o Gyngor Sir Casnewydd wrth y Pwyllgor am brosiect yr oeddent wedi rhoi cychwyn arno yng Nghasnewydd:

“Another interesting one that we have-it is an area with which the Chair is familiar-is a very socially difficult part of Newport, called Pill, where we have the demand but no ability to service that demand. So, we have been left with a large recreational grassed area that is underutilised. We are now going through processes to cordon off that area and go straight to a community garden...”

95. Dywedodd Hannah Pitt wrth y Pwyllgor sut yr oedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi ceisio annog pobl i dyfu eu bwyd eu hunain:

“In addition to making space available on our land, we have also been working to promote the idea of growing your own food and encouraging people to give it a go. We have run a series of events and activities; we have given away thousands of seeds and produced advice and tips for those who maybe are not so sure about how to get started.”

96. Clywodd y Pwyllgor nifer o hanesion am sefydlu rhandiroedd cymunedol, megis y fenter y soniodd Dan Morris o Ffederasiwn y Gerddi Fferm a Dinas amdani:

“.... Cymdeithas y Dalar, which are community allotments that I started in Llandeilo on land owned by the National Trust. That scheme is going extremely well. There are 100 members, we have links with local schools, there are 100 members in the gardening club there, and there is a traditional gardening club in the town.”

97. Soniodd Craig Mitchell o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am y manteision ehangach y gall rhandiroedd eu cynnig:

“allotments are about more than just food production. As part of the sustainable development framework ...we have developed a sustainable food module, which sets out a whole range of issues around food such as food security, sustainability and health and wellbeing.”

98. Ysgrifennodd Penny Owen at y Pwyllgor yn sôn am ei phrofiadau hi ar ei rhandir:

“As a small number of allotment holders on a site in Cardiff we are working with Age Concern to pilot a project to link us with local elderly people who would like some help to grow fruit/veg in their own gardens. We have called this project Kitchen Garden Aid.

“We are aware of the increasing evidence which links exercise with a healthier old age, including reducing the risk of dementia, and of the importance of combating social isolation.”

99. Calonogwyd y Pwyllgor gan hanesion megis hanes Penny a chred fod y math hwn o brosiect yn tanlinellu'r potensial sydd gan rhandiroedd i wireddu nifer o bolisïau allweddol y Llywodraeth, yn enwedig ym maes addysg, cymorth i grwpiau agored i niwed yn y gymdeithas a gofal iechyd.

100. Nid dim ond ar y lefel leol y gwelir manteision rhandiroedd a thiroedd tyfu cymunedol. Soniodd nifer o dystion am ein dibyniaeth ar ynni rhad a'r bygythiad posibl i'n ffordd bresennol o fyw yn sgil disbyddu'r cyflenwad olew. Pan fydd yr olew ar ben, daw darparu tir i dyfu bwyd yn bwysicach byth a bydd yn hanfodol inni gael tir tyfu'n lleol. Cred y Pwyllgor y gall Llywodraeth Cymru weithredu yn awr i

sicrhau bod Cymru'n darparu ar gyfer y rheini sy'n dymuno tyfu eu cynnyrch eu hunain.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n frwd i hybu manteision rhandiroedd a chymunedau'n tyfu bwyd fel rhan o'r agenda iechyd a lles ehangach.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddweud sut y bydd yn ystyried rôl rhandiroedd wrth fynd i'r afael ag unrhyw faterion a all godi yn sgil disbyddu'r cyflenwad olew.

Atodiad A – Deddfwriaeth sy'n ymwneud â Rhandiroedd

Deddfwriaeth sy'n ymwneud â Rhandiroedd

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â rhandiroedd yn eithaf cymhleth. Mae'r meysydd sy'n debygol o fod o'r diddordeb pennaf i ddeiliaid lleiniau wedi'u crynhoi mewn cyhoeddiad gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol⁹:

- [Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908](#)

Roedd hon yn cyd-gyfuno'r holl ddeddfwriaeth flaenorol ac yn sylfaen i'r holl ddeddfwriaeth a'i dilynodd. Roedd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu digon o randiroedd, yn ôl y galw. O dan y ddeddf hon hefyd, gall awdurdodau lleol brynu tir drwy orfodaeth er mwyn darparu rhandiroedd. Dyma'r fframwaith ar gyfer y drefn rhandiroedd fodern.

- [Deddf Cyfleusterau ac Aneiddiadau 1919](#)

Bwriad pennaf y Ddeddf hon oedd cynorthwyo aelodau'r lluoedd a oedd yn dychwelyd adref ac yr oedd yn agor byd rhandiroedd i bawb, nid dim ond i 'lafurwyr'. Drwy'r ddeddf, cafodd cynghorau bwrdeistref metropolitan eu gwneud yn awdurdodau rhandiroedd am y tro cyntaf.

- [Deddf Rhandiroedd 1922](#)

Sefydlwyd y Ddeddf hon i roi rhywfaint o sicrwydd deiliadaeth i denantiaid rhandiroedd. Roedd hefyd yn rhoi mwy o iawndal i denantiaid pan derfynid eu tenantiaeth ac roedd yn cyfyngu ar faint rhandir i chwarter erw, gan nodi'n benodol mai ar gyfer tyfu ffrwythau a llysiau y dylid ei ddefnyddio fwyaf.

- [Deddf Rhandiroedd 1925](#)

Roedd hon yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cydnabod yr angen am randiroedd mewn unrhyw gynllun datblygu tref. Roedd yn sefydlu rhandiroedd 'statudol', sef tir na chaiff awdurdod lleol na'i werthu na'i ddefnyddio at ddibenion eraill heb ganiatâd y Gweinidog. Bwriad y Ddeddf hon oedd hwyluso caffael a chadw rhandiroedd a rhoi rhagor o sicrwydd deiliadaeth i denantiaid.

⁹ Allotments: a plottolders guide Mehefin 2007 cyhoeddwyd gan ARI i ACLIL

- **Deddf Rhandiroedd 1950**

Roedd hon yn cynnwys:

- diwygio'r darpariaethau ynglŷn â'r rhenti y gellir eu codi am randir
- ymestyn cyfnod y rhybudd i ymadael i 12 mis ar gyfer gerddi rhandir
- iawndal i'w dalu i ddeiliad y llain ym mha dymor bynnag o'r flwyddyn y daw'r denantiaeth i ben
- gwneud deiliaid lleiniau sydd wedi gadael i'w llain ddirywio drwy esgeulustod yn atebol am dalu iawndal wrth iddynt roi'r gorau i'r rhandir
- caniatáu i bobl gadw rhai anifeiliaid penodol (ieir a chwingod) er y gall is-ddeddfau gyfyngu ar yr hawl hon mewn ambell achos

Deddfwriaeth arall a all fod yn berthnasol i ddeiliaid lleiniau yw:

- **Deddf Llywodraeth Leol 1972** - Roedd hon yn diwygio'r ddeddfwriaeth rhandiroedd yng nghyswllt nifer o fanylion, e.e. drwy ddileu'r gofyniad ar i awdurdodau lleol sefydlu pwyllgorau rhandiroedd (sydd yn Adran 12 o Ddeddf Rhandiroedd 1925).
- **Deddf Hawliau Dynol (1998)** - Mae hon yn rhoi hawliau sylfaenol y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ar waith yng nghyfraith y Deyrnas Unedig. Mae'n cynnwys 16 o hawliau sylfaenol a restrir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'r hawliau hyn yn effeithio nid yn unig ar faterion sy'n ymwneud â bywyd a marwolaeth megis rhyddid rhag poenydio a lladd, ond hefyd ar eich hawliau yn eich bywyd beunyddiol: yr hyn y cewch ei ddweud a'i wneud, eich credoau, eich hawl i gael treial teg a llawer o hawliau sylfaenol tebyg eraill. Ar lefel leol, mae'r Ddeddf yn mynnu bod awdurdodau lleol a'u hasiantau yn sicrhau bod pob polisi, pob arfer a phob gweithdrefn yn cydymffurfio â'r Ddeddf a bod pob penderfyniad a wneir sy'n effeithio ar bobl yn cydymffurfio â hi.

Deddfau eraill sydd wedi effeithio ar randiroedd yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 a Deddf Caffael Tir 1981.

Dynodi rhandir

Mae tri gwahanol fath o randir¹⁰.

- Parseli o dir y bydd awdurdod lleol/y cyngor cymuned yn eu caffael neu'n eu meddiannu i'w defnyddio'n benodol fel rhandiroedd yw rhandiroedd statudol. Ni cheir na gwerthu na defnyddio'r safleoedd hyn at ddibenion eraill heb ganiatâd Gweinidogion Cymru (Adran 8 o Ddeddf Rhandiroedd 1925).

¹⁰ Allotments: a plotholder's guide Mehefin 2007 cyhoeddwyd gan DCLG

- Rhandiroedd dros dro yw'r rhandiroedd sydd ar dir a ddynodwyd at ddibenion eraill, ond sy'n cael eu lesio neu'n cael eu gosod ar rent gan awdurdod rhandiroedd. Ni warchodir rhandiroedd dros dro yn yr un modd ag y gwarchodir rhandiroedd statudol ac mae'n bosibl eu gwaredu.
- Gellir gosod tir sy'n eiddo preifat i'w ddefnyddio'n rhandiroedd hefyd. Yr un statws cyfreithiol sydd gan y lleiniau hyn ag sydd gan rhandiroedd dros dro, ond nid oes gan y cyngor lleol reolaeth drostynt o gwbl.

Darparu Rhandiroedd

O dan *Ddeddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908* mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol/neu gynghorau cymuned i ddarparu digon o rhandiroedd, yn ôl y galw; mae'r ddeddf yn cynnwys darpariaeth i awdurdodau lleol/cynghorau cymuned brynu tir drwy orfodaeth er mwyn darparu rhandiroedd ac mae'n sefydlu'r fframwaith ar gyfer y system rhandiroedd fodern.

Rhaid i awdurdod lleol ystyried yn ffurfiol unrhyw gais ysgrifenedig gan chwech aelod o'r gymuned neu fwy am ddarparu rhandir (adran 23 (2)). Os oes digon o alw, yna, rhaid i'r cyngor ddarparu'r rhandiroedd (adran 23 (1)).

S 23 (1) If the council of any borough, urban district, or parish are of opinion that there is a demand for allotments...in the borough, urban district, or parish...the council shall provide a sufficient number of allotments, and shall let such allotments to persons...resident in the borough, district, or parish, and desiring to take the same.

(2) On a representation in writing to the council of any borough, urban district, or parish, by any six registered parliamentary electors or (persons who are liable to pay an amount in respect of council tax) resident in the borough, urban district, or parish, that the circumstances of the borough, urban district, or parish are such that it is the duty of the council to take proceedings under this Part of this Act therein, the council shall take such representation into consideration.

Os bydd poblogaeth rhanbarth neu blwyf, yn ôl y cyfrifiad diwethaf a gyhoeddwyd, yn is na 10,000, cyfyngir dyletswydd y cyngor i ddarparu gerddi rhandir (*Deddf Rhandiroedd 1950* a 9 (a)). Os bydd y boblogaeth yn 10,000 neu'n fwy na hynny, cyfyngir ar ddyletswydd y cyngor i ddarparu gerddi rhandir nad ydynt yn fwy nag un rhan o wyth o erw (*Deddf Rhandiroedd 1950* a9 (b)).

Nid yw Adran 23 (1) yn nodi amserlen i'r awdurdod lleol neu'r cyngor cymuned gwblhau ystyried cais ar ôl derbyn y cais hwnnw o dan Adran 23 (2).

Nid yw ychwaith yn mynnu bod y rhandiroedd a ddarperir yn cyrraedd unrhyw safon benodol, ac eithrio, wrth gwrs, y gofyniad

ymhlyg ei bod yn rhaid i'r tir fod yn gyffredinol addas i'w ddefnyddio'n rhandir. Nid oes yn rhaid i'r tir fod o fewn pellter cerdded i gartref deiliaid y llain, er enghraifft.

Os credir bod digon o alw, gall cynghorau gael gaffael ar dir o dan nifer o ddarpariaethau gan gynnwys:

- O dan Adran 5 o *Ddeddf Rhandiroedd 1925*. Mae gan gynghorau'r pŵer i gaffael tir i'w ddefnyddio ar gyfer rhandiroedd yn y dyfodol (hyd yn oed os nad oes modd gosod y tir neu unrhyw ran ohono'n rhandiroedd ar unwaith) cyn belled ag y gellir yn rhesymol ddisgwyl y bydd gofyn cael y tir ar gyfer rhandiroedd maes o law.
- O dan Adran 15 o *Ddeddf Rhandiroedd 1922*, caiff Cynghorau Sir osod tir a gaffaelir neu a feddiannir ar gyfer tyddynnod er mwyn trin y tir fel rhandir.
- Mae Adran 25 o *Ddeddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908* - yn rhoi'r grym i gyngor bwrdeistref, cyngor dosbarth trefol neu gyngor plwyf gaffael tir drwy gytundeb neu drwy orfodaeth, neu lesio tir at ddiben darparu rhandiroedd.

Wrth ymateb i Gwestiwn yn y Cynulliad yn 2008, cyfeiriodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, Jane Davidson at y pwerau sydd ar gael i gynghorau cymuned alw ar Lywodraeth Cymru i brynu tir drwy orfodaeth lle bydd awdurdod lleol yn gwrthod gwneud gorchymyn:

Jane Davidson: Mewn sefyllfa lle mae perchennog tir wedi nodi ei fod yn bwriadu rhoi'r gorau i ddefnyddio'r tir hwnnw ar gyfer rhandiroedd, gallai Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908 a Deddfau Rhandiroedd 1922 i 1950 roi ateb i ddeiliaid rhandiroedd sydd wedi'u dadleoli o ran galw ar yr awdurdod priodol. Roedd gennyf ddiddordeb arbennig pan ganfyddais yn ddiweddar, mewn amgylchiadau lle mae cyngor cymuned am brynu tir yn orfodol, a bod yr awdurdod lleol yn gwrthod gwneud gorchymyn ar ei gyfer, bod gennym y pŵer i wneud gorchymyn prynu gorfodol yn lle'r awdurdod lleol. Felly byddwn hefyd yn annog cynghorau cymuned i ddefnyddio'r ddeddfwriaeth hon.

Wrth ystyried y mater hwn, dylai fy adran ystyried darparu cyfleoedd ar gyfer cyflwyno canllaw da i ddeiliaid rhandiroedd, ac yn enwedig y rheini sydd â rhandiroedd ar dir preifat, fel y gallant ddeall pa bwysau y gellir eu rhoi ar awdurdodau cyhoeddus i gyflwyno rhandiroedd addas ar gyfer y dyfodol.

Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i chynnwys yn adran 39(7) o *Ddeddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908*, sy'n dweud (cyfeiriad):

Procedure for compulsory acquisition of land

(7) Where the council proposing to acquire land compulsorily is a parish council, the council shall, instead of themselves making and submitting to the Board the order, represent the case to the [district] council, and thereupon the [district] council may, on behalf of the parish council, exercise the powers in relation to compulsory purchase or hiring conferred on councils by this Act, and the order shall be carried into effect by the [district] council, but the land shall be assured or demised to the parish council, and all expenses incurred by the [district] council shall be paid by the parish council:

Provided that, if the parish council are aggrieved by the refusal of the [district] council to proceed under this section, the parish council may petition the Board, and thereupon the Board, after such inquiry as they think fit, may make such an order as the [district] council might have made, and this subsection shall apply as if the order had been made by the [district] council.

Mae'r geiriad yn eithaf hynafol, ond yn sgil amrywiol Orchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ddyletswydd ar i gynghorau cymuned sy'n bwriadu caffael tir drwy orfodaeth, boed hynny drwy brynu neu logi, yn hytrach na chyflwyno gorchymyn i Weinidogion Cymru eu hunain am gymeradwyaeth, gyflwyno sylwadau yn lle hynny i'r awdurdod lleol, Yna, gall yr awdurdod lleol benderfynu rhoi'r pwerau caffael gorfodol statudol ar waith neu beidio ar ran y cyngor cymuned.

Os bydd yr awdurdod lleol yn gwrthod bwrw ymlaen, yna, caiff y cyngor cymuned ddeisebu Gweinidogion Cymru a gall y rheini, ar ôl cynnal ymchwiliad priodol, wneud yr un math o orchymyn ag y gallasai'r awdurdod lleol ei wneud.

Mae amrywiol gyfyngiadau ar y math o dir y gellir neu na ellir ei gaffael drwy orfodaeth, i'w ddefnyddio ar gyfer rhandiroedd ac mae amryw o ffactorau'n dylanwadu ar orchmynion caffael gorfodol.

Atodiad B – Cynllunio a Rhandiroedd

Nid oes gofyn cael Caniatâd Cynllunio i ddatblygu rhandiroedd, oherwydd mae trin rhandir yn cyfateb i ddefnydd amaethyddol at ddibenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac nid yw defnyddio tir at ddibenion amaethyddol yn cael ei ystyried yn ddatblygu tir yng nghyd-destun y Ddeddf honno.

Bydd angen ystyried a oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer cytiau, polydwneli neu dai gwydr ym mhob achos unigol, ac nid oes modd dweud yn sicr pa bryd y bydd angen caniatâd cynllunio neu beidio.

Yn ôl Adran 57 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) mae gofyn cael caniatâd cynllunio i 'ddatblygu' tir, Yn ôl a336 (1), mae 'tir' yn cynnwys 'adeilad' ac mae'r diffiniad o adeilad '...yn cynnwys unrhyw strwythur neu adeiladwaith...'.

Diffinnir datblygiad yn Adran 55 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Yn ôl cyfraith achos, penderfynir a ystyrir bod codi strwythur yn ddatblygiad ar sail yr holl ystyriaethau perthnasol megis maint y strwythur, pa mor barhaol ydyw ac i ba raddau mae'n ffisegol sownd yn y ddaear.

Felly, mae'n eithaf posibl y bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer cwt mawr ac iddo sylfaen goncrit a chyflenwad dŵr yn rhedeg.

Nid yw hawliau datblygu caniatool yn debygol o fod yn berthnasol yng nghyswllt rhandiroedd.

Ni waeth a oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw strwythurau a godir ar leiniau neu beidio, mae gan lawer o awdurdodau sy'n darparu rhandiroedd reoliadau ynglŷn â maint, siâp a lliw cytiau ac felly, gall fod gofyn i ddeiliad rhandir wneud cais ysgrifenedig i ddarparwr y rhandir cyn gosod unrhyw strwythur arno.

Fframwaith Polisi Cynllunio

Yn y gorffennol, mae Adran 106 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref wedi cynnig mecanwaith i ddatblygwyr lunio cytundebau gydag awdurdodau cynllunio lleol (cytundebau adran 106/rhwymedigaethau cynllunio) er mwyn cynorthwyo i ddiwallu anghenion lleol.

Ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 2 - Mehefin 2010) dywedir:-

Wrth roi caniatâd cynllunio, gallai'r awdurdodau cynllunio lleol geisio ymrwymo i rwymedigaeth gynllunio gyda datblygwr er mwyn:

- Cyfyngu ar ddatblygu neu ddefnyddio'r tir
- Ei gwneud hi'n ofynnol bod gweithrediadau neu weithgareddau'n yn cael eu gwneud yn y tir, arno, oddi tano neu drosto;
- Ei gwneud hi'n ofynnol bod y tir yn cael ei ddefnyddio mewn modd penodedig; neu
- Ei gwneud hi'n ofynnol rhoi taliadau i'r awdurdod naill ai mewn un swm neu symiau achlysurol.

Ymysg ffactorau eraill, ni ddylid ond ceisio rhwymedigaethau cynllunio pan fyddant yn:

- angenrheidiol;
- perthnasol i gynllunio;
- ymwneud yn uniongyrchol â'r datblygiad arfaethedig;
- ymwneud yn deg ac yn rhesymol o ran graddfa a natur â'r datblygiad arfaethedig;
- a'i fod yn rhesymol ym mhob agwedd arall.

Dywed Polisi Cynllunio Cymru hefyd ynglŷn â rhandiroedd:

Dylid cadw rhandiroedd, yn enwedig pan fo ganddynt swyddogaeth bwysig fel manau agored ac os ydynt yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Fel rheol, yn achos cynnig i feddiannu neu gael gwared â rhandiroedd statudol at ddefnydd gwahanol, byddai gofyn i'r awdurdod lleol wneud cais am gydsyniad Llywodraeth y Cynulliad o dan Adran 8 o *Ddeddf Rhandiroedd 1925*.

Ym mis Ionawr 2009, cyhoeddwyd Nodyn Cyngor Technegol diwygiedig 16 am Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored gan Lywodraeth Cymru. Wrth sôn am rhandiroedd, dywedodd:

Mae rhandiroedd yn fannau gwyrdd pwysig mewn ardaloedd trefol a gwledig, a gall eu trin gyfrannu at gynaliadwyedd, darparu cyfleoedd ar gyfer hamdden, ymarfer corfforol a bwyd iach, gwella bioamrywiaeth ac annog rhyngweithio ymhlith gwahanol grwpiau yn y gymuned. Yn unol â darpariaethau Deddf Mân Ddaliadau a Rhandiroedd 1908, mae awdurdodau lleol a chynghorau tref a chymuned dan ddyletswydd i ddarparu digon o blotiau ar gyfer preswylwyr os credant fod galw am rhandiroedd. Dylai awdurdodau sicrhau bod rhandiroedd statudol o fewn eu hardaloedd yn cael eu diogelu'n ddigonol, eu hyrwyddo a'u rheoli, a bod digon ohonynt i gwrdd â'r galw gan breswylwyr sy'n dymuno eu trin. Yn benodol, dylai pob safle o'r fath gynnwys elfen addas o gynefin bywyd gwyllt. Mae pwysigrwydd safleoedd cyfunedig rhandiroedd/compostio/bywyd gwyllt yn debygol o gynyddu, yn enwedig wrth i ddwysedd datblygiadau tai preswyl gynyddu. Dylai'r polisiau yn y Cynllun Datblygu Lleol roi sylw i'r angen i ddarparu a diogelu safleoedd rhandiroedd/compostio/bywyd gwyllt pan fo prinder wedi ei nodi, ac i wella hygyrchedd safleoedd o'r fath i bob defnyddiwr. Gall fod yn briodol defnyddio Cytundebau Adran 106 i ddarparu rhandiroedd ar y cyd â chompostio a manau gwyrdd naturiol.

Pan fwriedir datblygu tir a ddefnyddir yn rhandiroedd statudol at ddibenion eraill, dylai'r awdurdod lleol geisio lliniaru'r golled trwy gyfrwng gofyniad i ddarparu safleoedd amgen, newydd ar gyfer rhandiroedd/compostio/bywyd gwyllt. Gwarchodir y rhandiroedd statudol a ddarperir gan awdurdodau lleol, o dan Ddeddf Rhandiroedd 1925. Mae'n bosibl na cheir yr un diogelwch yn achos safleoedd rhandir sydd mewn perchnogaeth breifat neu a ddelir dros dro o dan gytundeb rhwng tirlfeddiannwr a deiliad rhandir. Mae'n ofynnol cael caniatâd gweinidogion Cymru o dan adran 8 o'r Ddeddf cyn y gellir defnyddio rhandiroedd statudol at ddibenion eraill. Wrth ystyried cais am ganiatâd o'r fath, ni chaiff Gweinidogion Cymru ystyried rhinweddau'r datblygiad arfaethedig, gan mai'r cwestiwn hanfodol ger eu bron fydd a ellir parhau i fodloni'r galw am rhandiroedd yn yr ardal, pe na bai'r rhandiroedd dan sylw ar gael mwyach.

Daeth Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 i rym ar 6 Ebrill 2010. Tâl newydd yw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol y caiff awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru a Lloegr ei godi ar y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yn eu hardal, ond ni fydd yn rhaid iddynt wneud hynny. Bydd yr arian a godir drwy'r ardoll yn darparu seilwaith lleol ac isranbarthol newydd i gynorthwyo i ddatblygu ardal yn unol â chynlluniau datblygu awdurdodau cynllunio lleol.

Er y caiff awdurdodau ddewis cyflwyno'r Ardoll Seilwaith Cymunedol neu beidio, mae'r Rheoliadau'n crebachu'r ffordd y mae rhwymedigaethau cynllunio'n gweithio o dan Adran 106 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref. Mewn gair, dyma'r newidiadau:-

- Dim ond o dan yr amgylchiadau a ganlyn y caiff rhwymedigaeth cynllunio fod yn rheswm dros roi caniatâd cynllunio-
 - (a) os oes angen hynny er mwyn gwneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio;
 - (b) os yw'n yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad
 - (c) os oes cysylltiad gweddol a rhesymol rhyngddo a'r datblygiad o ran ei faint a'i fath.

Yn fras, mae'r profion hyn yn un fath â'r rheini a geir ym Mholisi Cynllunio Cymru.

- Sicrhau nad yw'r ffordd y defnyddir yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a rhwymedigaethau cynllunio'n gorgyffwrdd; a
- Cyfyngu ar gyfraniadau cronus yn sgil rhwymedigaethau cynllunio tuag at seilwaith y gellir defnyddio'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i dalu amdano.

Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-sc-home/bus-committees-third-sc-agendas.htm?ds=7%2F2010&submit=Submit>

18 Mawrth 2010

Dan Morris,	Gweithiwr Cefnogi Cymru, Ffederasiwn Ffermydd y Dinesig a Gerddi Cymunedol SC(3)-08-10 papur 1
Ben Raskin,	Cynrychiolydd Garddwriaethol, Cymdeithas y Pridd
Craig Mitchell	Swyddog Polisi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru SC(3)-08-10 papur 2 SC(3)-08-10 papur 2 Atodiad A SC(3)-078-10 papur 2 Atodiad B
David Morris,	Rheolwr Tir a Chefn Gwlad, Cyngor Dinas Casnewydd SC(3)-08-10 papur 3
Lyn Davies	, Rheolwr Golygfa Stryd, Cyngor Sir Conwy SC(3)-08-10 papur 4
Nicola Ellis,	Swyddog Dylunio'r Tirlun Wrecsam Cyngor Bwrdeistref Sirol
Martin Howorth,	Rheolwr Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, Wrecsam Cyngor Bwrdeistref Sirol

21 Ebrill 2010

Allan Rees MBE	Cadeirydd Cymdeithas Genedlaethol Garddwyr Hamdden a Rhandiroedd (SC3-09-10 Papur 1)
Adrian Walsh,	Mentor, Menter Adfywio Rhandiroedd yng Nghymru (CS3-09-10 Papur 2)
Hannah Pitt	Swyddog Polisi, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (SC3-09-10 Papur 3)
John Mason,	Cyd-sylfaenydd, Trawsnewid Bro Ddyfi (SC3-09-10 Papur 4)

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-sc-home/inquiries_sd/sc3-inq-allotments/sc_3_-inq-allotments-consultletter/sc_3_-allotments-responses.htm

<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Cymdeithas Rhandiroedd Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	Rhandiroedd 01
Cymdeithas Rhandiroedd Casnewydd	Rhandiroedd 02
Peter Segger	Rhandiroedd 03
Rhandiroedd Arberth 2010	Rhandiroedd 04
Cymdeithas Rhandiroedd Cymuned Llwynceilyn	Rhandiroedd 05
Susan Powell	Rhandiroedd 06
Richard Wiltshire	Rhandiroedd 07
Penny Owen	Rhandiroedd 08
Cymdeithas Rhandiroedd Pwyllgor Ardal Llangadog	Rhandiroedd 09
Vicky Moller	Rhandiroedd 10
Bleddyn Williams	Rhandiroedd 11
Tom Latter	Rhandiroedd 12
Raymond Osbourne	Rhandiroedd 13
Steve Arnold	Rhandiroedd 14
Graham Craig	Rhandiroedd 15
Kenneth Whyte	Rhandiroedd 16
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	Rhandiroedd 17
Rhaglen Adfywio Cymunedau - Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol PLANED	Rhandiroedd 18
	Rhandiroedd 19
Bro Morgannwg	Rhandiroedd 20

Ceredigion	Rhandiroedd 21
Sustainable Gwynedd Gynladwy	Rhandiroedd 22
Amber Wheeler	Rhandiroedd 23
Neil Hooper	Rhandiroedd 24
Cymdeithas randiroedd a gerddi bythynnod Hwlfordd a'r cylch	Rhandiroedd 25
Cyngor Sir Benfro	Rhandiroedd 26
Trawsnewid Abertawe	Rhandiroedd 27
Cyngor Sir Fynwy	Rhandiroedd 28
Rhandiroedd y Trallwng	Rhandiroedd 29
Trefi Trawsnewid Cas-gwent	Rhandiroedd 30
John Mason	Rhandiroedd 31